Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Gweithredu Gwledig Cwm Taf
Ffurflen Datgan Diddordeb

Prif gyswllt:	Y person fydd yn gyfrifol am dderbyn cyllid
Sefydliad fydd yn derbyn cyllid:	Enw'r sefydliadau bydd y cyllid yn cael ei sicrhau oddi tanynt
Pa fath o sefydliad:	Nodwch os ydych yn fenter gymdeithasol/ grŵp cymunedol ac ati. Os ydych yn grŵp cymunedol, nodwch a ydych yn gyfansoddiadol neu beidio
Cyfeiriad gan gynnwys y cod post:	Cyfeiriad cofrestredig y corf ddylai fod yma
Ffôn:	Dylech gynnwys rhifau cyswllt ar gyfer y sefydliad a'r prif bwynt cyswllt
E-bost:	Dylech gynnwys cyfeiriadau e-bost ar gyfer y sefydliad a'r prif bwynt cyswllt
Teitl y Prosiect:	Rhowch enw'r prosiect fel bo'n briodol

Crynodeb o'r Prosiect (dim mwy na 200 o eiriau):
Amlinellu'n fyr: • Nodau ac amcanion y prosiectau • Pwy fydd yn elwa • Unrhyw wybodaeth fydd yn dangos i'r Grŵp Gweithredu Lleol sut mae'r prosiect hwn yn ddelfrydol ar gyfer arian LEADER

Amlinellwch y dystiolaeth o angen cymunedol ar gyfer y Prosiect (gan gynnwys dulliau casglu tystiolaeth):	Dylech gynnwys gwybodaeth fel: • Gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd • Astudiaethau Dichonoldeb Ymchwil • Data ystadegol

Enghreifftiau o brosiectau tebyg a gyflwynwyd/profiad sydd gennych:	Disgrifio pam mai eich sefydliad chi sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r prosiect (e.e. arbenigedd) A yw eich sefydliad wedi cyflawni prosiectau tebyg yn y gorffennol.
Ardaloedd daearyddol a gwmpesir gan y Prosiect:	Bydd angen i brosiectau gael eu rhoi ar waith mewn wardiau gwledig cymwys. Dim ond prosiectau sy'n darparu budd mewn mwy nag un ward wledig fydd yn cael eu hystyried.
Ble fydd y Prosiect yn cael ei lleoli:	Nodwch (lle bo'n briodol) y lleoliadau /cyfeiriadau y bydd y Prosiect yn gweithio ohonynt os nad dyma gyfeiriad y sefydliad sy'n gwneud cais am gyllid (adran cysylltu P.4)
Partneriaid y Prosiect:	Nodwch os bydd y Prosiect yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, neu os bydd yn cyd-fynd â gweithgarwch partner. A ydych yn bwriadu is-gontractio?
Thema/Themâu LEADER y bydd y Prosiect yn cyflawni yn eu herbyn	Nodwch o dan ba rai o'r canlynol y bydd eich Prosiect yn sefyll (gallai fod yn fwy nag un) • *Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol* • *Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr* • *Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol* • *Ynni Adnewyddadwy ar Lefel Cymunedol* • *Archwilio technoleg ddigidol*
Pa themâu trawsbynciol bydd y Prosiect yn rhoi sylw iddynt	O dan y rhaglen LEADER, bydd angen mynd i'r afael â'r themâu canlynol hefyd. Nodwch pa themâu y bydd y Prosiect yn cyflawni yn eu herbyn ac ychwanegwch unrhyw rai eraill yr ydych yn teimlo sydd yn berthnasol. • *Yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb* • *Cymunedau Cynaliadwy a Gwydn* • *Ucheldir* • *Tlodi Gwledig* • *Iechyd a Lles*
Nodwch yn fyr sut mae eich prosiect yn gysylltiedig ag unrhyw Strategaethau Lleol/Cenedlaethol	Fel isafswm, cyfeiriwch gysylltiadau i: • Cynllun Integredig Sengl Merthyr Tudful • Strategaeth Cyflawni Newid Rhondda Cynon Taf • Strategaeth Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru "Y Gymru Rydym Eisiau" Yn fyr mynegwch sut bydd y prosiect yn gweithio i

	gyflawni amcanion o fewn y strategaethau. Cewch gyfle i ymhelaethu ar hyn yn adran Canlyniadau/Manteision yr EOI a bydd angen hefyd cynnwys rhagor o wybodaeth yn y ffurflen gais, os ydych yn llwyddiannus yn symud ymlaen i'r broses ymgeisio.

Cyfanswm cost y Prosiect:	Nodwch gyllideb gyflawn ar gyfer y Prosiect yn ei gyfanrwydd
Cyfanswm y cyllid LEADER Cynllun Datblygu Gwledig y gwneir cais amdano:	Faint o arian ydych chi ei angen ar gyfer y prosiect o'r gronfa LEADER. Noder y bydd disgwyl i chi roi arian cyfatebol o leiaf 20%.
Esboniwch sut y byddwch yn cyfateb arian y prosiect	E.e. amser staff mewn nwyddau, amser gwirfoddoli, arian parod
Ar gyfer beth y defnyddir yr arian	E.e. Adnoddau dynol, hyfforddiant, marchnata ac ati
Os yw'n berthnasol, rhowch fanylion y cyllid sydd eisoes wedi'i sicrhau / yn y broses o gael ei sicrhau	Nodwch y ffynhonnell a'r symiau sydd ar gael.
Amcangyfrif o Amserlenni Prosiect:	Darparwch amserlen fras ar gyfer eich prosiect ac unrhyw gerrig milltir neu derfynau amser penodol (gan gynnwys ariannol) sydd yn rhan annatod o'r Prosiect.
Os yw'n berthnasol, dylech gynnwys rhif DUNS y sefydliad	Lle bo'n berthnasol, bydd gwiriad Dun & Broadstreet yn cael ei wneud i asesu cryfder ariannol sefydliadau. Os yw'n berthnasol, dylech gynnwys rhif DUNS y sefydliad. Efallai na fydd sefydliadau gyda chod is na N ac â dangosydd risg uwch na 3 yn cael eu gwahodd i fynd ymlaen â'r cais. Dim ond yn berthnasol i'r sefydliadau hynny sydd â rhif DUNS.
Ydy eich sefydliad wedi cofrestru at ddibenion TAW? Os felly, dylech gynnwys y rhif cofrestru	Nodwch rif TAW eich sefydliad, os yw'n berthnasol. Bydd angen i ni wybod hyn os ydych yn llwyddiannus yn y broses ymgeisio.

A ydych yn bwriadu cyflwyno cais i Gronfa Datblygu Gymunedol Llywodraeth Cymru? Os felly, amlinellwch ar gyfer beth fyddai hyn	Bydd galwadau yn cael eu hagor gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cronfa Ddatblygu Gymunedol sy'n rhaglen Cyfalaf. Bydd gofyn i'r Grŵp Gweithredu Lleol i roi sylwadau ar eich cais felly byddai gwybodaeth ar yr adeg hon yn ddefnyddiol os yw'n hysbys. Mae gwybodaeth am y Gronfa wedi'i

	gynnwys o yn y pecyn.

Allbynnau/Yr hyn sy'n fesuradwy

Rhestrwch unrhyw allbynnau y gallai eich Prosiect gyflawni yn eu herbyn ac ychwanegu unrhyw symiau os yw'n hysbys. Os gwelwch yn dda byddwch yn realistig. Os bydd eich prosiect yn cael ei wahodd i'r broses ymgeisio a'i dderbyn yn y pen draw o dan LEADER RDP mae'n bosibl gellid codi costau am beidio â bodloni dangosyddion a thargedau a osodwyd.

E.e. Busnesau a ymgysylltwyd/gymhorthwyd
Cymunedau a ymgysylltwyd/gymhorthwyd
Nifer y Cynnyrch/Proses newydd a ddatblygwyd
Swyddi a grëwyd o ganlyniad i'r Prosiect
Nifer y bobl sydd wedi gwella eu cyflogadwyedd o ganlyniad i weithgarwch y Prosiect
Unigolion sydd wedi ymwneud â'r Prosiect

Canlyniadau/Buddiannau (dim mwy na 200 o eiriau)

Naratif – eglurwch ganlyniadau arfaethedig/buddiannau'r prosiect os gwelwch yn dda. Defnyddiwch yr adran hon i ymhelaethu ar sut y bydd y prosiect yn helpu i gyflwyno ar y themâu trawsbynciol a grybwyllwyd yn gynharach a sut y bydd y Prosiect yn mynd i'r afael ag angen y gymuned a nodwyd gennych.

Rhestr Materion/Risg

Defnyddiwch yr adran hon i nodi'n gryno unrhyw faterion/risgiau yr ydych yn ymwybodol ohonynt yn ystod y cam yma a allai rwystro cyflwyno'r Prosiect.
Fel:

- Caniatâd cynllunio/Prydlesi
- Cyfansoddiad y sefydliad, yswiriant, cynlluniau busnes/cyllid sydd yn eu lle
- Materion perchnogaeth tir
- Materion partneriaeth

Gall y Grŵp Gweithredu Lleol weithio gyda sefydliadau i gefnogi/gynghori ar sut i oresgyn a mynd i'r afael ag unrhyw faterion gan ddarparu amserlenni priodol a realistig lle bydd rheoli risg o'r fath. Os byddwch yn cael eich gwahodd i'r broses cais, bydd angen cyflwyno log risg a materion fel rhan o'ch cais prosiect.

Datganiad Ffurfiol

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau'r holl gwestiynau yn y Datganiad Ffurfiol a bod y Datganiad o Ddiddordeb wedi'i lofnodi a'i ddyddio.

Bydd methu â llenwi'r adran ddiwethaf hon yn golygu bod y Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei ddychwelyd a gallai, o ganlyniad, olygu nad yw eich Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei ystyried i fynd ymlaen i'r cais llawn.

Noder y gellir gofyn i chi am ragor o wybodaeth o ganlyniad i atebion i gwestiynau yn yr adran hon er mwyn galluogi'r Grŵp Gweithredu Lleol er mwyn asesu pa mor briodol yw cymhwysedd y prosiect/sefydliad.

NODER NA FYDD UNRHYW ESTYNIADAU YN CAEL EU RHOI AR Y DYDDIAD CAU.